OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 339

## Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn, ac eithrio’r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (3), i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Daw’r darpariaethau a ganlyn o’r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2022—

(a) rheoliad 11;

(b) rheoliad 12;

(c) rheoliad 13;

(d) rheoliad 15 i’r graddau y mae’n ymwneud â swyddogaethau a roddir i Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gan reoliad 11, 12 neu 13.